Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol y Dderi
Water Street
Llangybi
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 8LY

20/10/2025

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Hydref 2025

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol y Dderi yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas â dau argymhelliad o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm arolygu ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu dogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Cryfhau'r cyfleoedd i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut maent yn dysgu

- Mae'r pennaeth a'r staff yn gweithredu'n fwriadus wrth werthuso dulliau gwahanol o gynllunio ac addysgu wrth ddarparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion ddatblygu eu medrau yn gynyddol annibynnol.
- Mae'r pennaeth yn darparu dysgu proffesiynol gwerthfawr i staff sy'n cyfrannu at rannu arferion effeithiol ar draws yr ysgol. O ganlyniad, mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddatblygu annibyniaeth disgyblion ar draws yr ystod oedran.
- Mae athrawon yn amrywio'r dulliau addysgu i gefnogi disgyblion i ddysgu'n annibynnol. Maent yn gwerthuso effaith y dulliau hyn ar ddatblygiad medrau'r disgyblion yn ystyrlon, gan eu mireinio fel bo'r angen er mwyn cefnogi disgyblion i wneud dewisiadau annibynnol am eu dysgu a gwneud cynnydd cyson dros amser.
- Mae disgyblion yn cyfrannu'n adeiladol i'w dysgu drwy gynnig syniadau i gynnwys y themâu tymhorol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn ystyrlon wrth gynllunio profiadau dysgu sy'n ennyn a chynnal diddordeb y disgyblion yn

llwyddiannus. Trwy hyn, mae disgyblion yn cael eu hannog i wneud penderfyniadau pwrpasol am eu dysgu.
- Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn dechrau perchnogi eu dysgu yn llwyddiannus. Erbyn brig yr ysgol, mae disgyblion yn magu hyder i wneud penderfyniadau am sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith yn gynyddol annibynnol.

### Cryfhau adborth athrawon a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith fel eu bod yn gwybod beth i'w wneud i wella

- Mae'r pennaeth a'r staff yn rhoi blaenoriaeth glir ar sicrhau bod disgyblion yn cael cyfleoedd buddiol i ymateb yn gadarnhaol a phwrpasol i adborth. Mae hyn yn cefnogi'r disgyblion i wneud cynnydd cyson mewn ystod dda o fedrau dros amser.
- Mae'r pennaeth yn darparu cyfleoedd dysgu proffesiynol ystyrlon a chyfoethog, sy'n cynnwys ymchwil gweithredol, i annog staff i fyfyrio ac addasu eu dulliau'n synhwyrol wrth ddarparu adborth pwrpasol i ddisgyblion.
- Pan fo'n briodol, mae staff yn mireinio'r polisi adborth yn fwriadus, gan dreialu syniadau newydd a chaffael arferion defnyddiol i gefnogi'r dysgu. Wrth i ddisgyblion aeddfedu, maent yn dangos dealltwriaeth gynyddol o'r polisi a'r cod marcio ac yn defnyddio'r rhain yn bwrpasol i drafod a gwella eu dysgu.
- Trwy ddefnyddio dulliau cytunedig, fel wrth ddefnyddio pennau â lliwiau gwahanol er mwyn dangos cryfderau a meysydd i'w gwella yn eu gwaith. Darperir cyfleoedd amserol a phwrpasol i'r disgyblion hŷn ailddrafftio a gwella ansawdd a safon eu gwaith yn gyson, ac ar adegau priodol, gwaith disgyblion eraill.
- Mae staff yn cydweithio'n bwrpasol ag ysgol uwchradd gyfagos i ddatblygu dulliau cytûn o ran ymateb i waith disgyblion. Mae hyn, yn ei dro, yn cefnogi disgyblion yn fuddiol wrth drosglwyddo i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan:
http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6672366

Yn gywir

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol